Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli'r Ddogfen

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Anabledd APS**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield
Rhif y Fersiwn:	Fersiwn 5
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	10 Gorffennaf 2025
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad dod i Rym:	Ar Unwaith
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2028
Dogfennau Cysylltiedig:	Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Athrofa Padarn Sant

Hanes y Ddogfen:

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar y Diwygiadau
1	22 Awst 2019	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Drafft cyntaf • Diweddariad yn dilyn adolygiad o'r Ddarpariaeth Cymorth Dysgu • Angen diwygio'r adran ar ddatgelu i Oruchwylwyr Lleoliad ar ôl ymgynghori â Phennaeth Cyfreithiol Corff y Cynrychiolwyr • Diwygio iaith rhywedd-benodol • Ychwanegu diffiniad o 'Sylweddol' • Ychwanegu manylion am gymorth i ddysgwyr wrth aros am asesiad • Symleiddio'r adran GDPR
2	20 Medi 2021	Kathryn Delderfield	
3	10 Mai 2022	Kathryn Delderfield	
4	19 Rhagfyr 2023	Kathryn Delderfield	

5	Mehefin 2025	Kathryn Delderfield	• Ail ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r polisi i adlewyrchu nodyn cyngor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer y sector addysg uwch yn deillio o achos cyfreithiol Prifysgol vs Abrahart

Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant (APS)

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Diffiniadau
4. Y Cyd-destun Cyfreithiol
5. Addasiadau Rhesymol
6. Ymrwymiad Athrofa Padarn Sant
7. Derbyniadau
8. Datgelu
9. Asesiad o Anghenion
10. Cynlluniau Cymorth Dysgu
11. Lwfans Myfyrwyr Anabl
12. Cyfrinachedd
13. Manylion Cyswllt

2. Cyflwyniad

Mae Athrofa Padarn Sant yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd cynhwysol a hygyrch lle y gall pob dysgwr ffynnu. Ein nod yw darparu'r offer i ddysgwyr sydd angen cymorth a fydd yn eu galluogi i weithio yn unol â'u potensial a dangos gwir lefel eu galluoedd.

3. Diffiniadau

Cynhwysol a hygyrch – mae hyn yn cyfeirio at amgylchedd addysgu a dysgu Athrofa Padarn Sant, a'i arferion asesu, a ddyluniwyd i hybu cyfranogiad cyfartal ac adlewyrchu amrywiaeth y dysgwyr.
Niwroamrywiol – mae Athrofa Padarn Sant yn cydnabod sut y mae unigolion yn dysgu ac yn meddwl yn wahanol.
Addasiadau rhesymol – addasiadau a wneir gan Athrofa Padarn Sant i ddileu neu leihau rhwystrau i ddysgu, gan ystyried ffactorau fel eu heffeithiolrwydd, eu heffaith ar ddysgwyr ac adnoddau eraill.
Astudio a dysgu - mae'r ymadrodd hwn yn cwmpasu holl raglenni, rhwydweithiau a chyrsiau unigol Athrofa Padarn Sant.

4. Y Cyd-destun Cyfreithiol

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb (2010), bydd Athrofa Padarn Sant yn cymryd camau rhesymol i sicrhau na fydd dysgwyr anabl o dan anfantais wrth wneud cais am, neu wrth ddilyn cwrs astudio, o gymharu â pherson heb anabledd.

Yn ôl y ddeddf, diffinnir anabledd fel amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael 'effaith niweidiol sylweddol hirdymor ar allu unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd'. Fel canllaw, dylid dehongli "effaith sylweddol" fel unrhyw beth sy'n fwy nag effaith fach neu ddibwys ac mae effaith hirdymor yn un sydd wedi neu sy'n debygol o bara o leiaf 12 mis neu sy'n debygol o bara am weddill oes person.

Mae enghreifftiau o anabledd yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Gyflyrau iechyd hirdymor (e.e. epilepsi, blinder cronig)
- Anawsterau dysgu penodol (e.e. dyslecsia, dyspracsia)
- Cyflyrau Iechyd Meddwl (e.e. iselder, anhwylder deubegynol)
- Amhariad ar y golwg
- Amhariad ar y clyw
- Awtistiaeth

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod dyletswydd i wneud addasiadau rhagddyfalus rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl yn Athrofa Padarn Sant.

5. Addasiadau Rhesymol

Nod addasiadau rhesymol yw sicrhau os ydych yn ddysgwr anabl, eich bod yn gallu cyflawni eich potensial llawn a sicrhau nad ydych o dan anfantais o gymharu â dysgwyr heb anabledd. Mae'r ddyletswydd hon yn un rhagddyfalus, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i Athrofa Padarn Sant ystyried a chymryd camau gweithredu mewn cysylltiad â rhwystrau sy'n atal pobl anabl yn gyffredinol rhag cael mynediad at y ddarpariaeth ddysgu yn Athrofa Padarn Sant.

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i:

- Ddarpariaethau, meini prawf, neu arferion, er enghraifft polisïau, prosesau a dulliau o addysgu a dysgu ac asesu
- Nodweddion ffisegol, er enghraifft, mynediad at adeiladau, dyluniad yr amgylcheddau addysgu a dysgu
- Darparu cymhorthion neu wasanaethau ategol, er enghraifft, cyfarpar, technoleg neu gymorth gan berson (a ddarperir yn aml drwy'r Lwfans Myfyrwyr Anabl).

Mae Athrofa Padarn Sant yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynhwysiant (strwythurol, diwylliannol, sefydliadol ac agweddol) a man cychwyn hyn yw'r rhagdybiaeth nad yw darpariaeth hygyrch a phriodol yn ddarpariaeth 'ychwanegol' ond yn hytrach yn elfen graidd o'n cenhadaeth a'n gwaith cyffredinol.

6. Ymrwymiad Athrofa Padarn Sant

Bydd Athrofa Padarn Sant yn ymdrechu i:

- Weithio i sicrhau bod ei harferion a'i hagweddau amgylcheddol, cymdeithasol a sefydliadol yn gynhwysol i ddysgwyr ag anableddau, anawsterau dysgu penodol, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd hirdymor.
- Darparu amgylchedd dysgu cynhwysol, gan ymdrechu i fod yn rhagddyfalus wrth wneud addasiadau rhesymol a chymryd camau cymesur i oresgyn rhwystrau a allai lesteirio dysgwyr anabl neu eu rhoi dan anfantais.
- Annog dysgwyr i ddatgelu eu hanabledd yn llawn, meithrin amgylchedd lle y bydd dysgwyr yn teimlo eu bod yn gallu siarad am anableddau a gwneud yn siŵr bod gwybodaeth glir am y cymorth sydd ar gael a sut i gael mynediad ato.
- Cefnogi dysgwyr i wneud cais am Lwfansau Myfyrwyr Anabledd a chael mynediad atynt.

- Cefnogi pob aelod o staff drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau anabledd i godi ymwybyddiaeth a'u helpu i gefnogi dysgwyr anabl.
- Cydweithio gyda dysgwyr i barhau i wella profiad dysgwyr anabl.

7. Derbyniadau

Mae Athrofa Padarn Sant yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau, anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia), cyflwr iechyd meddwl, cyflwr iechyd hirdymor neu bobl sy'n niwroamrywiol. Wrth wneud cais i ddilyn rhaglen, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddatgelu eich anabledd ar y cam gwneud cais, er mwyn gallu rhoi cymorth priodol ar waith cyn gynted â phosibl. Mae'r holl ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau Athrofa Padarn Sant yn cael ystyriaeth gyfartal. Mae'r penderfyniad i dderbyn rhywun i ddilyn cwrs yn seiliedig ar y farn y gellir disgwyl yn rhesymol i'r dysgwr gyrraedd y safonau cymhwysedd a, lle y bo'n berthnasol, bodloni gofynion corff proffesiynol y cwrs. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio **safon cymhwysedd** fel 'safon academaidd, feddygol neu safon arall a gymhwysir at ddibenion penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio.' **Ni ellir** gwneud addasiadau rhesymol i ganlyniadau dysgu'r cwrs.

8. Datgeliad

Os oes gennych anabledd, byddem yn eich annog yn gryf i ddatgelu hyn cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu gwneud trefniadau cymorth priodol. Fodd bynnag, gallwch ddatgelu anabledd **unrhyw bryd** yn ystod eich astudiaethau. Rydym yn eich annog hefyd i siarad gyda'r tîm Cymorth Dysgu neu diwtor os ydych yn amau bod gennych anabledd neu gyflwr sy'n effeithio ar eich astudiaethau.

Os byddwch yn penderfynu peidio â datgelu anabledd ar y cam gwneud cais, ni fyddwch yn cael eich trin yn llai ffafriol os byddwch yn penderfynu datgelu'r anabledd hwnnw yn ddiweddarach yn eich astudiaethau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyflyrau iechyd yn newid, ac y gallai anghenion newid yn ystod eich astudiaethau felly rydym yn eich annog i gyfleu unrhyw newidiadau i ni cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu sicrhau eich bod yn cael y cymorth priodol.

Mae Athrofa Padarn Sant yn annog dysgwyr i ddatgelu anableddau neu anawsterau wrth ddysgu yn uniongyrchol i'n tîm cymorth dysgu ymroddedig a chymwynasgar, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy anfon neges e-bost i **learningsupport@stpadarns.ac.uk** . Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo'n fwy cyfforddus yn datgelu eich anabledd neu anhawster dysgu i aelod arall o staff, er enghraifft eich tiwtor personol, mae croeso i chi wneud hynny.

Mae Athrofa Padarn Sant yn gofyn am wybodaeth am eich anabledd er mwyn helpu i ddarparu'r cymorth gorau posibl i chi. Gall hyn gynnwys pethau fel diagnosis ffurfiol neu lythyr gan feddyg teulu. Gall hefyd gynnwys yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym am eich cyflwr, neu arsylwadau gan staff sy'n gysylltiedig â'ch dysgu. Nid yw gwneud addasiadau rhesymol yn dibynnu ar ddarparu diagnosis ffurfiol, ond y mwyaf o wybodaeth sydd gennym y mwyaf y gallwn sicrhau ein bod yn teilwra eich cymorth dysgu i'ch anghenion penodol chi.

Ar ôl i chi wneud datgeliad, gall Athrofa Padarn Sant ddechrau'r broses o asesu pa gymorth ac addasiadau sydd eu hangen arnoch.

9. Asesiad o Angen

Mae gan Athrofa Padarn Sant ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ni waeth sut y byddwch yn datgelu eich anabledd. Fel arfer, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried gan Gynghorwyr Cymorth Dysgu sy'n aelodau o staff Athrofa Padarn Sant sy'n ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a nhw sydd fel arfer yn fwy abl i gynnal asesiad trylwyr o'r hyn sydd ei angen arnoch yn eich astudiaethau. Bydd y Cynghorwyr Cymorth Dysgu yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd cyfartal yn ystod eu hastudiaethau gydag Athrofa Padarn Sant. Fodd bynnag, pan fydd yn ymwybodol o anabledd, mae gan Athrofa Padarn Sant gyfrifoldeb o hyd i roi addasiadau rhesymol ar waith ac nid yw hyn yn ddibynnol ar asesiad llawn gan y Cynghorwyr Cymorth Dysgu. Dylai staff Athrofa Padarn Sant geisio cyngor gan y Cynghorwyr Cymorth Dysgu ar wneud addasiadau rhesymol.

10. Cynlluniau Cymorth Dysgu

Mae Athrofa Padarn Sant yn ceisio cynyddu cynhwysiant dysgu ac addysgu er mwyn rhoi'r profiad dysgu gorau i bawb. Fodd bynnag, os oes gennych anabledd, bydd eich anghenion unigol yn cael eu hasesu i weld a oes angen addasiadau rhesymol penodol er mwyn cefnogi eich dysgu a sicrhau na fyddwch dan anfantais. Gall addasiadau gynnwys trefniadau penodol ar gyfer arholiadau, darparu cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu, addasiadau i arferion asesu, a threfniadau llety.

Er mwyn sicrhau bod addasiadau rhesymol priodol yn cael eu gwneud a'u dilyn ym mhob agwedd ar eich astudiaethau, y drefn arferol yw y bydd tîm cymorth dysgu Athrofa Padarn Sant yn asesu eich anghenion ac yn ysgrifennu cynllun cymorth dysgu sy'n cael ei ddosbarthu i bawb sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi ar waith a bydd Athrofa Padarn Sant yn hyfforddi eu staff i wneud hynny. Pan fydd staff heblaw'r tîm Cymorth Dysgu yn gwneud addasiadau, dylid trafod y rhain gyda'r tîm

Cymorth Dysgu er mwyn iddynt allu cael eu cynnwys yng nghynllun cymorth dysgu'r dysgwr, pan fo hynny'n berthnasol. Os bydd gan staff Athrofa Padarn Sant unrhyw ansicrwydd ynghylch beth yw addasiadau rhesymol, dylent gysylltu â'r tîm Cymorth Dysgu am gyngor.

Gellir addasu'r cynllun cymorth dysgu os nad yw'r addasiadau yn effeithiol neu i adlewyrchu newidiadau i'ch anghenion. Dylech gysylltu â'r Cynghorwyr Cymorth Dysgu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch eich cynllun.

Mae'r cynllun cymorth dysgu yn ddogfen gydweithredol fel arfer sy'n eich cynnwys chi, Cynghorydd Cymorth Dysgu ac aelodau o staff perthnasol.

Gwneir addasiadau o fewn ffiniau'r ffactorau canlynol:

- Natur amgylchiadau ac anghenion y dysgwr yn dilyn y broses asesu.
- Natur y rhaglen astudio.
- Effeithiolrwydd tebygol yr addasiad i ddileu'r anfantais.
- Ymarferoldeb yr addasiad, gan ystyried:
  a. Ymarferoldeb y camau
  b. Materion iechyd a diogelwch
  c. Adnoddau Athrofa Padarn Sant
  d. Disgwyliadau rhesymol eraill a ffactorau allanol (er enghraifft ffactorau sy'n gysylltiedig â lleoliadau)
  e. Y costau, gan gynnwys argaeledd ffynonellau cyllid allanol ar gyfer e.e., Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn yr addasiad
  f. Buddiannau perthnasol pobl eraill, gan gynnwys dysgwyr eraill, pan fyddai'r addasiad yn arwain at anfantais sylweddol i'r bobl eraill hynny
  g. Y graddau y bydd cymhorthion, a gwasanaethau eraill yn cael eu darparu fel arall i bobl ag anabledd
  h. Cynsail cyfreithiol
  i. Y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau cynhwysol, sef y dull o sicrhau hygyrchedd yr ydym yn ei ffafrio, yn hytrach nag addasiad rhesymol.

I'r dysgwyr hynny sy'n ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, bydd y Cynghorydd Cymorth Dysgu yn gweithio gyda'r Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i'r Weinidogaeth, y Tiwtor Dysgu Cyd-destunol a Goruchwyliwr Lleoliad ymgeisydd i roi addasiadau priodol ar waith. Bydd unrhyw gymorth a ddarperir gan Athrofa Padarn Sant yn ymwneud â'i pherthynas a'i swyddogaeth fel darparwr addysg. Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn darparu cymorth a fyddai fel arfer yn cael ei ddarparu gan sefydliadau statudol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Awdurdod Iechyd.

Bydd manylion addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt ar gyfer dysgwr wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Cymorth Dysgu. Er mwyn gwneud addasiadau rhesymol a'ch

cefnogi gyda'ch dysgu, bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda'r rhai sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau. Gallai'r rhain gynnwys staff tiwtorial, staff gweinyddol, ac i ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, gallai'r rhain gynnwys goruchwylwyr lleoliadau a staff esgobaethol perthnasol. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail yr angen i wybod.

Bydd Cynlluniau Cymorth Dysgu yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ond gallwch ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg os bydd eich anghenion yn newid neu os ydych yn teimlo nad yw eich cynllun yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch.

11. Lwfans Myfyrwyr Anabl

Mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) yn grant gan y llywodraeth sydd ar gael i ddysgwyr anabl cymwys ar rai cyrsiau addysg uwch yn y DU, i helpu gyda chostau ychwanegol cwrs y gallech eu hysgwyddo drwy fynychu eich cwrs, o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd. Gall y lwfansau helpu i dalu am gynorthwyydd personol anfeddygol, eitemau o gyfarpar arbenigol, meddalwedd cynorthwyol, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs.
Nid yw'r lwfans yn seiliedig ar brawf modd nac yn ad-daladwy. Nid yw'r DSA ar gael i bob dysgwr, ond mae'n amodol ar feini prawf cymhwystra sydd i'w gweld ar wefan Gov.uk yn: **https://www.gov.uk/disabled-students-allowance-dsa/overview** . Nid oes angen tystiolaeth o anabledd ar Cyllid Myfyrwyr, ac mae'r manylion ar gael ar y wefan hon.

Nid yw cael cynnig lle yn Athrofa Padarn Sant yn gwarantu eich bod yn gymwys i gael DSA.

Mae'r DSA yn seiliedig ar asesiad dysgu a drefnir drwy gorff dyfarnu'r DSA. Bydd argymhellion yr asesiad hwn yn cael eu hymgorffori yn eich cynllun cymorth dysgu. Os byddwch yn datgan bod gennych anabledd a'ch bod yn dilyn rhaglen astudio achrededig, fe'ch anogir yn gryf i wneud cais am DSA er mwyn i chi gael y cymorth cynhwysfawr sydd ar gael o'r ffynhonnell hon.

Bydd tîm Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant yn eich cynorthwyo i gwblhau cais am DSA.

12. Cyfrinachedd

Bydd Athrofa Padarn Sant yn cymryd gofal i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei barchu. Er mwyn gwneud addasiadau rhesymol a'ch cefnogi gyda'ch dysgu, bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda'r rhai sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau. Gallai'r rhain gynnwys staff tiwtorial, staff gweinyddol ac i ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, gallai'r rhain gynnwys goruchwylwyr lleoliadau a staff esgobaethol perthnasol. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail angen gwybod. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'r wybodaeth a roddwch i ni, ewch i'n datganiad preifatrwydd yma.

13. Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â'r Tîm Cymorth Dysgu drwy:

E-bost: **learningsupport@stpadarns.ac.uk**

Ffôn: **02920563379**